**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/EM/3060/23

Cadeiryddion y GIG

18 Rhagfyr 2023

Annwyl Gyfeillion

**Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2024-2027**

Ysgrifennaf i gyflwyno’r Cyfarwyddiadau cynllunio statudol ar gyfer sefydliadau'r GIG sy'n egluro'r gofynion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd hyn yn pennu'r uchelgais a'r cyfeiriad ar gyfer eich cynlluniau dros gyfnod o dair blynedd.

Mae gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn cael eu darparu drwy gynllunio integredig, yn hytrach na thrwy ddull seiliedig ar farchnad. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, yn nodi'r gofynion ar gyfer gwaith cynllunio'r GIG yng Nghymru. O dan y fframwaith deddfwriaethol, mae gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, ddyletswydd statudol i baratoi cynllun, sy'n cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo. Mae’r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y sefydliad yn sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau i fantoli'r gyllideb gan hefyd wella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt a darparu gofal iechyd i'r bobl hynny. I gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i fyrddau'r sefydliadau hynny gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd imi ei ystyried.

Mae'r Fframwaith hwn wedi'i osod o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol y bu'n rhaid i'r GIG ymateb iddynt ers ei sefydlu. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i waddol Covid a Brexit, y rhagolygon ariannol heriol a'r pwysau system ehangach ar y gweithlu yn ogystal â’r sefyllfa o safbwynt costau byw. O ystyried yr heriau digynsail, y pwysau gweithredol ac ariannol, yn ogystal â’r pwysau o ran y gweithlu a’r galw, mae'n hanfodol bod ein hadnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i ddarparu'r gofal a'r driniaeth orau i bobl Cymru. Bydd cynlluniau sefydliadol yn nodi'r gwelliannau sydd i'w gwneud i wasanaethau, ac i sicrhau eu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol, yn unol â'r adnodd sydd ar gael i leihau anghydraddoldebau ac i wella canlyniadau iechyd y poblogaethau yr ydych yn eu gwasanaethu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod mewn cyfraith yr angen i ystyried y dull strategol hirdymor ar gyfer gwireddu dyfodol gwell. Roedd ‘Cymru Iachach’ yn sylfaen i hyn, a dyma’r weledigaeth a'r cynllun hirdymor o hyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn i'r camau gweithredu yn Cymru Iachach gael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn berthnasol i’r heriau a wynebir ar hyn o bryd a’r rhai y disgwylir eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn bwrw ati â’r gwaith hwn hyn dros y misoedd nesaf. Ar ôl i gamau gweithredu Cymru Iachach gael eu diweddaru, bydd eich cynlluniau yn cael eu hasesu a'u cydgasglu i greu darlun cenedlaethol er mwyn penderfynu pa mor bell y maent yn mynd i wireddu’r weledigaeth honno. Mae’n hanfodol sicrhau, felly, fod eglurder ynghylch yr ymrwymiadau cyflawni yn eich cynlluniau.

Gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth sy’n parhau i ysgogi ein huchelgeisiau cynllunio strategol. Rhaid inni ddeall effaith baich modelu clefydau a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu darparu ar gyfer cynllunio ein gwasanaethau. Mae’r ddadl ddiweddar yn y Senedd ar adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol – Y GIG mewn 10 Mlynedd a Mwy – yn cydnabod y pwysau y bydd y system yn eu hwynebu oherwydd bydd bron i un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn 70 oed neu'n hŷn. At hynny, gallai nifer y rhai sydd â diabetes godi o bron i 22% a gallai nifer y bobl sy'n dioddef o bedwar neu ragor o gyflyrau cronig ddyblu. Mae hyn yn dangos y dylid canolbwyntio ar atal, lle bynnag y bo hynny’n bosibl, er mwyn sefydlogi'r GIG a lleihau'r galw acíwt yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel rheoli pwysau a diabetes a fydd yn cefnogi canlyniadau iechyd ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd dros amser.

I wneud hyn, mae'n hanfodol inni ddefnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus drwy ddilyn dulliau sy’n seiliedig ar ansawdd a gwerth. Bydd y dulliau hyn yn sicrhau bod llai o wastraff, niwed ac amrywiadau direswm. Mae enghreifftiau rhagorol i’w cael eisoes ym meysydd diabetes a'r galon drwy raglen Gwerth mewn Iechyd Cymru. Rhaid inni dynnu ar yr enghreifftiau hyn a’u defnyddio er mwyn mynd ati mewn modd cyson i roi ymyriadau gwerth uchel ar waith a lleihau unrhyw ymyriadau sy’n is eu gwerth, tra bôm hefyd yn cyflawni’r canlyniadau gorau i gleifion.

Yn y flwyddyn ariannol hon, byddwch yn gwybod am y gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn i nodi a dyrannu rhagor o gyllid ar gyfer y GIG, lleihau diffygion a'r disgwyliadau cyflawni yr wyf wedi'u gosod ar gyfer y cyfansymiau rheoli targed yn ôl Bwrdd Iechyd. Mae cynnydd yn cael ei wneud gan nifer o sefydliadau ond mae angen gwneud rhagor o waith i fodloni’r cyfansymiau rheoli a osodwyd. Mae’r rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn parhau i fod yn heriol iawn, ac rwy’n disgwyl i’r camau a gyflawnir y flwyddyn hon gael eu cynnal yn rheolaidd, cyn nodi'r gwelliannau pellach sy’n rhaid eu gwneud ar gyfer 2024-25 o safbwynt effeithlonrwydd ac arbedion.

Cyhoeddir y fframwaith cyllidebol a dyraniadau ar gyfer y GIG ar ôl i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi ar 19 Rhagfyr, ac mae'n hanfodol bod sefydliadau'r GIG yn gwneud cynnydd pellach tuag at gynaliadwyedd ariannol.

Dylai cynlluniau fanteisio ar gyfleoedd i drawsnewid, arloesi a chyfleoedd digidol wrth gynllunio gwasanaethau a llwybrau triniaeth. Mae datblygiadau digidol yn hanfodol i drawsnewid effeithlonrwydd, mynediad a gofal, er enghraifft, drwy uchelgais i gael GIG di-bapur. Bydd trawsnewid digidol hefyd yn sicrhau ansawdd a diogelwch cleifion. Bydd yr holl elfennau hyn yn cefnogi gwaith ataliol ac yn gwneud gwahaniaeth i sefydlogi'r system yn y tymor byr yn ogystal â helpu i liniaru rhywfaint o'r pwysau di-ildio ar wasanaethau.

Mae gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn gweld tua 90% o'r cleifion sydd mewn cysylltiad â'r GIG yng Nghymru. Gwnaed yn glir yn Cymru Iachach fod symud adnoddau a sicrhau bod modd gweld mwy o gleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin yn y gymuned yn allweddol i gyflawni gwelliannau hirdymor mewn iechyd. Bydd helpu pobl i gadw'n iach gartref yn ddibynnol iawn ar fynd ati o ddifrif i sefydlu partneriaethau a threfniadau cydweithio ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. I weld newid trawsnewidiol yn ein gwasanaethau iechyd a gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y 75 mlynedd nesaf, mae angen inni fwrw ati i gyflawni'r newid hwnnw. Rwyf am weld parodrwydd ymhlith y sefydliadau i ymrwymo i'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan y rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn dangos bod gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn greiddiol i'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ac ar gyfer symud y gwaith ar draws rhaglenni i ddatblygu model Gofal Cymunedol Estynedig cyson i Gymru yn ei flaen.

Mae'n glir bod y pwysau parhaus yn cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc a bod anghydraddoldebau iechyd hefyd yn dwysáu o ganlyniad i'r pwysau. Rhaid rhoi sylw i ansawdd a lefelau'r gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw menywod a phlant, na rhannau eraill o gymunedau Cymru, o dan anfantais wrth geisio cael mynediad at ofal a thriniaeth. Rhaid rhoi sylw i leihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n cael eu profi gan sectorau o'n cymunedau. Gellir llwyddo i leihau rhai anghydraddoldebau iechyd drwy nodi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd, ystyried meysydd o ymarfer gorau a datblygu camau i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae darparu mynediad teg at bob gwasanaeth yn parhau i fod wrth wraidd gwerthoedd y GIG yng Nghymru, ac mae hyn yn fwy perthnasol eto hyd yn oed pan ellir cael effaith anghymesur yn ystod yr argyfwng 'costau byw'. Rwy'n eich annog i ystyried y meysydd hyn wrth ichi gynllunio.

Bydd y rhaglenni cenedlaethol yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael – adnoddau nad ydynt yn ddi-derfyn – yn y ffordd orau bosibl. Ni ddylai costau gael eu gyrru gan hyn ond dylid cadarnhau'r arferion gorau drwy ansawdd, effeithlonrwydd a phrofiad y claf. Mae meysydd y Rhaglen Genedlaethol yn parhau fel a ganlyn:

- Gofal Cymunedol Estynedig, gan ganolbwyntio ar leihau oedi mewn llwybrau gofal.
- Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol, gan ganolbwyntio ar wella mynediad a symud adnoddau i ofal sylfaenol a gofal cymunedol.
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, gan ganolbwyntio ar gyflwyno'r rhaglen 6 nod.
- Gofal a Gynlluniwyd a Chanser, gan ganolbwyntio ar leihau'r amseroedd aros hiraf.
- Iechyd Meddwl, gan gynnwys CAMHS, gan ganolbwyntio ar gyflwyno'r rhaglen genedlaethol.

Cyhoeddwyd yr amodau atebolrwydd ar gyfer y rhaglenni hyn ym mis Medi a byddant yn sicrhau dilyniant rhwng cynlluniau 2023 a 2024.

I ddarparu arweiniad a chefnogaeth, mae'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, dan gadeiryddiaeth Judith Paget, wedi cytuno ar bum ffrwd waith i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl ar draws y system. Mae'r meysydd thematig fel a ganlyn:

- Y Gweithlu
- Rheoli meddyginiaethau
- Gofal Iechyd Parhaus/Gofal Nyrsio a Ariennir
- Caffael a chostau nad ydynt yn gyflogau
- Amrywiadau Clinigol/Cyfluniad Gwasanaethau

Mae'r Bwrdd eisoes wedi cyhoeddi amrywiaeth o ofynion mewn perthynas ag ymyriadau gwerth isel, presgripsiynu a gofal iechyd parhaus y mae'n rhaid eu rhoi ar waith i sicrhau dull cyson ledled Cymru. Rwyf am weld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar draws pob ffrwd waith.

Fel rhan o'r agenda Gwerth a Chynaliadwyedd, rwy'n gwbl glir am fy nisgwyliad, ar gyfer 2024-25, fod yn rhaid cael effaith gyson a sylweddol yn y meysydd canlynol ar lefel leol a chenedlaethol. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion ganolbwyntio ar sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni, a bydd cynnydd yn y meysydd hyn yn nodwedd allweddol wrth asesu cynlluniau sefydliadau:

- Cynnydd parhaus o ran lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth cost uchel.
- Sicrhau bod trefniadau 'Unwaith i Gymru' wedi'u cadarnhau yn eu lle ar gyfer galluogwyr allweddol y gweithlu, fel recriwtio, a digidol.
- Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol.
- Ailddosbarthu adnoddau i ofal cymunedol a gofal sylfaenol lle y bo hynny'n briodol a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a gynigir gan bolisïau allweddol fel 'Ymhellach, yn Gyflymach'.
- Lleihau amrywiadau direswm ac ymyriadau gwerth isel.
- Cynyddu effeithlonrwydd gweinyddol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i leihau costau gweinyddol a chostau rheoli fel cyfran o'r sylfaen wario.

Mae GIG Cymru yn derbyn cyfran fawr o gyllideb Llywodraeth Cymru. Felly, mae'n ddyletswydd ar sefydliadau'r GIG i sicrhau bod eu rôl fel Sefydliadau Angori yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Rwyf am weld sefydliadau'r GIG yn dangos sut y maent yn cyfrannu at yr economi sylfaenol, yr agenda newid hinsawdd, yn ogystal â chefnogi nodau ehangach Llywodraeth Cymru, gan ddangos y cyfleoedd partneriaeth a chydweithio ar draws sectorau sy'n dod gyda'r cyfrifoldeb hwn.

Wrth inni ymdrechu i fwrw ymlaen â'r trefniadau cyflawni gweithredol uniongyrchol yn yr amgylchedd heriol hwn, rhaid inni beidio ag anghofio am y gwelliannau iechyd yr ydym yn ymgyrraedd at eu cyflawni. Bydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) yn gyson yn ein galluogi i elwa ar fuddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddfwriaeth arloesol hon yn cael ei hategu gan ddwy Ddeddf allweddol arall – sef Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, y bydd darpariaethau pellach ohoni yn dod i rym ym mis Ebrill 2024. Mae'r rhain yn darparu'r cyd-destun ar gyfer sut y dylai sefydliadau'r GIG gydweithio gan fynd ati'n ddi-ildio i ystyried ansawdd ym mhopeth a wneir, er mwyn darparu'r gofal GIG gorau yn gyson ym mhob ardal o Gymru. Ym mis Ebrill 2024, bydd Cyd-bwyllgor Comisiynu Cenedlaethol GIG Cymru yn cael ei sefydlu hefyd, a bydd hyn yn arwain at symleiddio'r cyd-destun comisiynu.

Bydd Judith Paget, Prif Weithredwr y GIG, yn ysgrifennu atoch yn fuan i egluro'r broses a'r trefniadau llywodraethiant a fydd yn sail i'ch cyflwyniadau. Bydd cynlluniau'r GIG yn parhau i gynnig sylfaen gadarn ar gyfer amcanion Prif Weithredwr a Chadeiryddion y GIG a byddant yn ganolog i'n trafodaethau drwy gydol y flwyddyn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i holl staff y GIG am yr ymrwymiad a'r gofal y maent yn eu dangos bob dydd – maent yn gwneud gwahaniaeth i gleifion yng Nghymru. Er dyled i'r staff hynny, rwy'n gwybod y byddwch yn cytuno bod rhaid inni sicrhau bod ein huchelgeisiau ar y cyd ar gyfer gwella canlyniadau yn cael eu gwireddu.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At Brif Weithredwyr
GIG Cymru

18 Rhagfyr 2023

Annwyl gydweithwyr

**Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2024-27**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau'r broses a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer sefydliadau'r GIG yn dilyn llythyr y Gweinidog a oedd yn nodi Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2024-27. Yn ogystal â'r her a'r cyd-destun a nodwyd gan y Gweinidog, mae hon yn garreg filltir hanfodol i sefydliadau atgyfnerthu eu cynlluniau. Mae hefyd yn gyfle inni sicrhau ein bod yn mynd ati gyda'n gilydd i wneud cynnydd tuag at wireddu ein hagenda cynaliadwyedd a chyflawni 'Cymru Iachach' yn ehangach.

Mae gan bob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG ddyletswydd statudol i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig, sy'n nodi sut y byddant yn sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswydd i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd, wrth wella iechyd y bobl y maent yn gyfrifol amdanynt a darparu gofal iechyd i bobl o'r fath. I gefnogi hyn, rwy'n cydnabod bod cynllunio ar gyfer y tymor hwy yn helpu sefydliadau i fod yn gydnaws â'u hamcanion strategol ac i ddarparu ymdeimlad cryf o gyfeiriad i staff ar gyfer gweithio'n gydlynol. Bydd hyn yn ategu'r Fframwaith Cynllunio.

Mae swyddogion wrthi'n llunio disgwyliadau manylach ar gyfer rhai o sefydliadau'r GIG, megis y llythyr mandad ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gydnabod eu rolau mwy arbenigol yn y system, a bydd rhagor o gyngor ar y rhain yn dilyn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn ategu'r Fframwaith Cynllunio.

Bydd angen i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig ddilyn y fformiwla gyfarwydd ar gyfer y cynlluniau tair blynedd, sef cynnwys manylion y cynnydd 'Cadarn, Dangosol ac Amlinellol' a wneir a dangos cynnydd clir dros amser. Felly, dylai cyflwyniadau gynnwys cynllun naratif tair blynedd, a'r templedi y cytunwyd arnynt ar y cyd. Rhaid i hyn gyd-fynd â'r Set Ddata Sylfaenol sydd hefyd yn ategu'r cynlluniau. Dylai'r cynllun naratif tair blynedd nodi'r hyn a gyflawnwyd, yr hyn y gwnaed cynnydd arno a'r hyn na lwyddwyd i'w gyflawni ers y cyflwyniad blaenorol. Rhaid i flwyddyn gyntaf eich cynlluniau gynnwys manylion am y cerrig



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Judith.Paget001@gov.wales

Gwefan ● www.llwy.cymru

milltir, y camau gweithredu a'r rhagamcanion sy'n gosod yr uchelgais o ran cyflawni a rheoli risg yn weithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod, ynghyd â chynaliadwyedd ariannol.

Rwyf hefyd am dynnu eich sylw at ansawdd, atal, ac annhegwch iechyd, ac yn enwedig at sut mae'r elfennau hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Rwy'n awyddus i weld tystiolaeth o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ar draws y meysydd hyn a nodir yn y cynlluniau naratif tair blynedd. Mae ansawdd a thegwch yn elfennau pwysig iawn o ddarparu pob math o wasanaethau a gofal, a bydd sefydliadau am ddangos y rhain. Dylai eich Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth barhau i fynd i'r afael â chyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau fel rhan benodol o'ch dull ehangach o ymdrin â chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn benodol yn gosod gofyniad ar bob un ohonom, fel unigolion a sefydliadau, a rhaid inni ystyried y 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal wrth wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau. Bydd y fframwaith hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i asesu cynlluniau. Rhaid ystyried mynediad plant at ofal a gwasanaethau penodol a chyffredinol yn fwy gofalus er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal amserol a phriodol a bod yr holl gamau ataliol yn cael eu cymryd i wneud y gorau o ganlyniadau iechyd yn y dyfodol.

**Cynllunio Ariannol**

Roedd yr heriau ariannol a oedd yn ein hwynebu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon yn sylweddol ac roedd lefel y diffyg ariannol a gariai'r GIG yng Nghymru yn wirioneddol ddigynsail. Drwy ein gweithredoedd ar draws y system yn y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi gallu sicrhau rhagor o gyllid i'r GIG yn rheolaidd, ac mae cynnydd yn cael ei wneud ar gamau i leihau diffygion. Yn ogystal, mae cyfansymiau rheoli targed wedi'u gosod fesul bwrdd iechyd. Byddwch yn ymwybodol bod elfen reolaidd y dyraniadau hynny yn ystod y flwyddyn yn amodol ar gynnydd yn erbyn y cyfansymiau rheoli targed. Bydd manylion y fframwaith dyrannu a chyllidebu ar gyfer y GIG yn 2024/25 yn dilyn unwaith y bydd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi'i gosod. Bydd angen i bob cynllun ddangos sut y gall fynd ymhellach i leihau diffygion a sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mae craffu parhaus, yn genedlaethol ac yn lleol, ar reolaeth ariannol yn ganolog i ddeall y cynnydd a wneir gan sefydliadau o ran lleihau risg ariannol. Sicrhewch fod gennych ddulliau ar waith i gysoni a deall yn gyson effaith unrhyw benderfyniadau ynghylch arian neu'r gweithlu ar gyflawni cynlluniau.

Mae dealltwriaeth dda o heriau'r rhagolygon ariannol, ac felly rhaid gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd i drawsnewid, a hynny gan ddefnyddio technolegau newydd sy'n creu effeithlonrwydd, a gwella profiadau i gleifion. Mae cyflwyno atebion digidol yn amlwg yn rhan o'n darpariaeth yn y dyfodol a rhaid cyflymu hyn lle bo hynny'n bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddaf yn sicrhau bod agenda'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, ar lefel genedlaethol, yn parhau gyda'r cynnydd da rydym yn ei wneud ac yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau ychwanegol a nodwyd gan y Gweinidog. Rhaid i sefydliadau ddatblygu cynlluniau lleol sy'n cyflawni'r gofynion hyn.

**Trefniadau integredig**

Cyhoeddir y Fframwaith Perfformiad maes o law a bydd yn adlewyrchu ystod eang o wybodaeth allweddol am berfformiad sy'n ategu'r Set Ddata Sylfaenol, y byddwch yn ei darparu ochr yn ochr â'ch cynlluniau naratif tair blynedd.

Bydd y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol ichi gyflwyno templedi ar gyfer yr ymrwymiadau, sy'n cyd-fynd â'ch cynlluniau, a dylai'r rhain ganolbwyntio ar feysydd risg.

Rhaid i gynlluniau'r GIG barhau i fod yn seiliedig ar gydweithio ar draws ffiniau byrddau iechyd a'r sector cyhoeddus ac, er enghraifft, sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chynlluniau Datblygu Clwstwr Carlam a chynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Datblygiadau 2024**

Mae'n bwysig nodi bod nifer o ddatblygiadau parhaus a newydd a fydd yn dylanwadu ar gynlluniau'r flwyddyn nesaf. Yr Adolygiad Atebolrwydd y mae'r Gweinidog wedi gofyn amdano; yr adolygiad o weithredoedd *Cymru Iachach;* sefydlu Cyd-bwyllgor Comisiynu newydd GIG Cymru; gwaith parhaus y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yr wyf yn ei gadeirio; a bydd cam dau Gweithrediaeth y GIG yn cael ei weithredu. Bydd angen i gynllunio fod yn ystwyth a deinamig a pharhau i ymateb ac addasu i'r amgylchedd sy'n newid. Dyma un o gryfderau'r GIG a gwn y byddwch yn dangos yr arweinyddiaeth a'r arloesedd a fydd yn sicrhau'r sefydlogrwydd sydd ei angen.

Mae gofynion deddfwriaethol newydd sy'n cael effaith yn 2024 ac a fydd yn gofyn am weithredu gan sefydliadau'r GIG:

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 – sy'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG adnewyddu eu nodau llesiant yng ngoleuni'r gofynion newydd. Mae'r GIG eisoes yn arweinydd ym maes partneriaeth gymdeithasol a chaffael a bydd llawer o'r ddeddfwriaeth eisoes yn gyfarwydd. Dyma ddolen i wybodaeth allweddol am Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW. CYMRU

Bwriedir i Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) gael y cydsyniad brenhinol ym mis Rhagfyr 2023 ac i reoliadau a chanllawiau statudol cysylltiedig gael eu gosod yn ystod haf 2024. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi’r gallu i sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol i roi arferion caffael mwy hyblyg ar waith wrth ddod o hyd i wasanaethau a ddarperir fel rhan o’r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (senedd.cymru)

Daeth y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd i rym ym mis Ebrill eleni. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd. Mae angen inni gadw mewn cof y 12 'Safon Ansawdd Iechyd a Gofal'. Yn yr un modd, mae'r gyfres o Ddatganiadau Ansawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig egwyddorion arweiniol cryf ynghylch yr hyn y dylai 'gwasanaethau da' anelu ato, a rhaid i fyrddau fodloni eu hunain eu bod wedi cyflawni'r cydbwysedd cywir yn eu prosesau cynllunio.

**Amserlen ar gyfer cyflwyno**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau yw 29 Mawrth 2024**.** Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi asesiadau a phenderfyniadau cynnar mewn perthynas â chynlluniau i helpu i sicrhau nad oes oedi wrth gyflawni meysydd blaenoriaeth allweddol. Bydd amodau atebolrwydd a statws uwchgyfeirio sydd eisoes ar waith yn parhau i fod ar waith nes y bydd unrhyw gyfathrebu pellach yn cael ei wneud.

Bydd yn ofynnol i Brif Weithredwyr gyflwyno llythyr gan y Swyddog Atebol imi erbyn 16 Chwefror 2024 os nad yw eu sefydliad yn gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cytbwys. Bydd yn glir ar yr adeg hon a fydd y sefydliad wedi torri ei ddyletswydd statudol a allai arwain at gamau gweithredu gofynnol pellach ac uwchgyfeirio o bosibl.

Bydd angen adlewyrchu statws uwchgyfeirio eich sefydliad, a gadarnhawyd yn ddiweddar, ac yn benodol gysondeb ag unrhyw feini prawf isgyfeirio (lle bo hynny'n berthnasol) yn eich cynlluniau. Dylai cydweithwyr yng Ngweithrediaeth y GIG gefnogi eich gweithredoedd lle bo hynny'n briodol.

**Erbyn 16 Chwefror 2024 – Llythyr y Swyddog Atebol (os yw'n briodol)**


**Erbyn 29 Mawrth 2024 – y Cynllun, y templedi Gweinidogol a chyflwyno'r Set Ddata Sylfaenol, gan gynnwys y templedi ariannol.** Croesawir ceisiadau cynharach.

O ystyried yr heriau gyda'r broses gynllunio yn 2023/24, mae disgwyliad cynyddol y bydd y cynlluniau a gyflwynir yn gryfach ac yn rhoi eglurder ynghylch y gofynion cyflawni a bennwyd. Bydd unrhyw gynlluniau nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn ar ôl eu hadolygu yn cael eu huwchgyfeirio ar unwaith a bydd yr opsiynau a'r dewisiadau sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn cael eu hasesu.

Diolch am eich arweinyddiaeth a'ch cefnogaeth i'r trefniadau cynllunio strategol a gweithredol hanfodol hyn. Mae system ddiogel wedi'i chynllunio yn hanfodol er mwyn cyflawni'r gwelliannau rydym i gyd eisiau eu gweld, ac edrychaf ymlaen at gael eich cynlluniau ym mis Mawrth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Samia Edmonds, Cyfarwyddwr Cynllunio a fydd yn darparu rhagor o fanylion os oes angen ac yn parhau i gysylltu â Chyfarwyddwyr Cynllunio'r GIG.

Yn gywir



**Judith Paget**

Copi i:
Cyfarwyddwyr Cynllunio
Cyfarwyddwr Cyllid